# Asbestos yn y Cartref

## Mae’r wybodaeth ganlynol yn dweud wrthych am asbestos:

Beth ydyw
- Lle gellir dod o hyd iddo yn y cartref
- Sut mae sicrhau nad ydych chi na’ch teulu mewn perygl

## Beth yw asbestos?

Asbestos yw'r enw a roddir ar grŵp o fwynau ffibrog sy’n digwydd yn naturiol. Mae asbestos yn hynod gryf, hyblyg a sefydlog ac mae hyn wedi arwain at ei ddefnyddio mewn ystod eang o ddeunyddiau adeiladu rhwng y tridegau a chanol yr wythdegau ac yn fwyaf helaeth yn y chwedegau a'r saithdegau. Os cafodd eich cartref chi ei adeiladu neu ailwampio yn ystod y cyfnod hwn, mae’n bosib ei fod yn cynnwys deunyddiau sydd ag asbestos ynddynt. Mae'n annhebygol iawn y bydd adeiladau a godwyd ar ôl yr wythdegau yn cynnwys asbestos yn fframwaith yr adeilad. Mae'n annhebygol iawn y bydd adeiladau a godwyd ar ôl y nawdegau yn cynnwys unrhyw asbestos o gwbl.

## Ble mae deunyddiau sy’n cyn-nwys asbestos yn debygol o fod?

Dyma rai esiamplau:
- Paneli baddon
- Dalennau sment rhychiog – siediau/garejys
- Caenau Addurnol Gweog e.e. artex
- Soffitiau
- Pibellau gwastraff
- Câs/bocs o amgylch pibellau gwastraff a phibellau eraill
- Teils llawr plastig
- Nwyddau dŵr glaw/cwterydd, pibellau

## Beth ydy'r peryglon iechyd? “Nid yw asbestos yn beryglus os ydyw mewn cyflwr da ac yn cael llonydd”

Pan fydd deunyddiau asbestos yn hen neu wedi torri h.y. ar ôl iddynt gael eu drilio, llifio, sgrwbio neu sandio, gallant ryddhau ffibrau i'r awyr.



Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni

CARDIFF
CAERDYDD

## Beth mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud am asbestos mewn tai Cyngor?

Mae gan Gyngor Caerdydd Gynllun Rheoli Asbestos sy'n esbonio sut y byddwn yn nodi a rheoli asbestos yn ein tai Cyngor.

Er mwyn casglu gwybodaeth am asbestos yn eich cartref, mae Cyngor Caerdydd wedi comisiynu arolwg o'i dai a'i fflatiau i gyd, gan gynnwys ardaloedd cymunedol. Mae syrfëwr arbenigol eisoes wedi archwilio pob ardal gymunedol a nawr mae'n gweithio ar gwblhau arolwg o'r holl dai sy'n eiddo i'r Cyngor. Bydd y broses yn nodi lleoliadau unrhyw ddeunyddiau y tybir eu bod yn cynnwys asbestos.

Bydd pob deunydd yn cynnwys asbestos mewn cyflwr da yn cael ei adael a bydd ei gyflwr yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Os bydd y deunydd wedi torri neu'n hynod o beryglus oherwydd ei leoliad bydd Cyngor Caerdydd yn gweithredu ar unwaith i gael gwared ohono.

Cofiwch: "Nid yw asbestos yn beryglus os ydyw mewn cyflwr da ac yn cael llonydd"

## Beth yw fy nghyfrifoldebau os ydw i'n denant?

Os ydych eisiau gwneud unrhyw waith ar eich cartref y gallai ymyrryd â'r deunydd sy'n cynnwys asbestos rhaid i chi gysylltu â Llinell Gymorth Asbestos Cyngor Caerdydd ar (029) 20872088.

Bydd staff ein llinell gymorth yn cyfeirio'ch ymholiad at staff cymwys a fydd yn ystyried eich cais a sicrhau bod y rheolaethau priodol ar waith er mwyn lleihau'r perygl i chi, eich teulu a'r person sy'n gwneud y gwaith (os nad chi yw hwnnw). Os ydych yn gwneud unrhyw waith eich hun neu'n caniatáu i rywun arall wneud gwaith a hynny heb ganiatâd ysgrifenedig, chi fydd yn atebol am dalu'r costau o ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau'n gysylltiedig ag asbestos.
Cofiwch na chaniateir gwneud newidiadau i isadeiledd neu adeiledd yr eiddo o dan y cytundeb tenantiaeth gyda Chyngor Caerdydd heb gael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw.

## Beth os ydw i wedi prynu fy nghartref o dan 'Hawl i Brynu'?

Fel perchennog, chi sy'n gyfrifol am unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich cartref. Os nad ydych yn dilyn y cyfarwyddiadau y nodir yn y daflen, gallech fod yn peryglu eich iechyd eich hun, eich teulu a'r person sy'n gwneud y gwaith ar eich rhan.

I gael mwy o wybodaeth ffoniwch Llinell Gymorth Asbestos Cyngor Caerdydd sydd ar agor rhwng 8am a 7pm ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am a 12.30pm ar Sadyrnau ar (029) 20872088.

## Beth os ydw i'n amau bod asbestos yn fy nghartref?

Os ydych yn ansicr os ydy deunydd yn cynnwys asbestos, neu'n meddwl bod eich cartref yn cynnwys deunydd asbestos sydd wedi torri yna...

Ffoniwch Linell Gymorth Asbestos Cyngor Caerdydd ar (029) 20872088

**Peidiwch â cheisio delio ag asbestos ar eich pen eich hun!**

## Ble Galla'i Gael Rhagor o Wybodaeth?

Gwefannau defnyddiol:
www.hse.gov.uk/asbestos
Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch

www.ncsa.org.uk
Y Gymdeithas Genedlaethol dros Aer Glan a Gwarchod yr Amgylchedd

www.aic.org.uk
Canolfan Wybodaeth Asbestos

www.caerdydd.gov.uk/tai
Cyngor Caerdydd

Os hoffech gael gwybodaeth mewn iaith neu fformat arall, rhowch wybod i ni.